Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ymrwymiad 3: sefydlu diwylliant yn y gweithle lle y mae pawb yn cael eu

cynnwys a’u hysbysu

Cyngor ac adnoddau er mwyn sefydlu diwylliannau gweithlu lle mae pawb yn cael eu cynnwys ac yn wybodus.

Cyhoeddwyd gyntaf: 12 June 2023
Diweddariad olaf: 9 November 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/adnoddau-iechyd-a-llesiant/mae-eich-llesiant-yn-bwysig-fframwaith-iechyd-a-llesiant-y-gweithlu/ymrwymiad-3-sefydlu-diwylliant-yn-y-gweithle-lle-y-mae-pawb-yn-cael-eu-cynnwys-au-hysbysu am y fersiwn diweddaraf.

Mae’r adran hon yn gysylltiedig â’r canlynol:

- Y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol, adrannau 2.6, 2.7, 2.8
- Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol 3.5, 4.5, 6.6, 7.1

Dylai fod gan sefydliadau systemau, ymddygiadau, ac arferion cyfathrebu sy’n gwneud yn siŵr bod pob cyflogai – beth bynnag fo’i swydd, ei gefndir, neu’i leoliad – yn cael mynediad at y canlynol:

- gwybodaeth glir,
- ymwneud ystyrlon,
- cyfleoedd i ddylanwadu ar gyfeiriad y sefydliad.

I wneud hyn, mae angen creu amgylchedd lle y mae’r cyfathrebu’n dryloyw a lle y mae pob cyflogai’n teimlo bod cysylltiad rhyngddo a phwrpas y sefydliad a’i fod yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y pethau sy’n effeithio arno.

Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u parchu pan fydd ganddynt lais a phan fyddant yn cael eu cynnwys mewn newid yn y gweithle. Gallai hyn fod yn newid i’r ffordd y mae’r sefydliad yn gweithio, neu’n newid i’r ffordd yr ydych yn darparu gofal a chymorth.

I gynnwys ac i hysbysu pobl, mae hefyd angen i arweinwyr atgyfnerthu diwylliant agored a chyfranogiad.

Sut olwg sydd ar hyn?

Mewn sefydliad, mae hyn yn golygu:

- bod dulliau rheolaidd a chyson ar waith i ofyn am farn staff
- bod gan staff lais yn y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt

- bod cwestiynau’n cael eu gofyn i’r staff am eu llesiant, am yr amgylchedd gweithio, ac am sut y gall y sefydliad wella, a bod newidiadau a datblygiadau’n cael eu cydlunio gyda’r staff
- bod staff yn cael gwybod am ganlyniadau eu hadborth ac yn gweld pethau’n cael eu gwneud o ganlyniad i’w mewnbwn.

Beth y gallwch chi ei wneud

Ar gyfer sefydliadau

Dangos

• Gwneud yn siŵr bod ein harweinwyr yn amlwg.

• Cynnwys staff mewn newidiadau i’r sefydliad, gan gynnwys newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau.

• Darparu ffyrdd clir, hygyrch a thrloyw i bawb gyfathrebu.

• Gwneud yn siŵr bod cyfleoedd a sianeli clir ar gael i aelodau staff rannu eu barn neu’u pryderon, fel arolygon staff, fforymau staff, cynrychiolwyr staff, a gwybodaeth am undebau.

• Cael arolwg llesiant ar gyfer staff, neu ffordd debyg o’n helpu i ddeall yr hyn sy’n effeithio ar lesiant staff.

• Cydnabod a dathlu cyfraniadau staff i’w hannog i gymryd rhan mewn cyfleoedd i gyfathrebu.

• Egluro sut y mae adborth yn arwain at newid – rhoi gwybod yn glir i aelodau staff am yr hyn yr ydym wedi’i wneud o ganlyniad i’w mewnbwn.

Ar gyfer rheolwyr

Dangos

• Cymryd rhan yn y broses o newid a gwella fy sefydliad, ac annog fy staff i wneud hynny hefyd.

• Hyrwyddo arolygon staff a chyfleoedd eraill i ddweud sut yr wyf yn teimlo, a chymryd rhan ynddynt.

• Egluro wrth aelodau staff pan fo newidiadau'n digwydd o ganlyniad i'w hadborth.

Ar gyfer pawb

Dangos

• Cymryd rhan yn gwaith o newid a gwella fy sefydliad.

• Cymryd rhan mewn arolygon staff a chyfleoedd eraill i ddweud sut yr wyf yn teimlo.

• Cymryd amser i gael cipolwg ar y cymorth sydd ar gael imi.

• Gwneud awgrym neu gyfrannu at newid.

Adnoddau a chymorth

Mae'n bosib na fyddai rhai adnoddau allanol yn hygyrch neu ar gael yn ddwyieithog. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am adnoddau allanol.

- **Pecyn cychwynnol llesiant yn y gweithle – Cymru Iach ar Waith**
  Canllaw cam wrth gam i adeiladu gweithle iachach a hapusach.

- **Offeryn arolwg i gyflogwyr – Cymru Iach ar Waith**
  Ffordd gyflym ac ymarferol o ddod i wybod a yw'ch sefydliad yn gwneud

popeth y gall ei wneud i gefnogi iechyd a llesiant y gweithwyr.

- **Cwestiynau arolwg i fesur llesiant (Saesneg yn unig) – What Works Wellbeing**
  Cwestiynau y gallwch eu defnyddio i fesur llesiant yn y gweithle.